Cyngor Bro Llanllwni

Adroddiad Cyfarfod 15 Mehefin 2026
Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlwyd ag Eric Davies a Geraint Davies a gollodd aelodau teuluol yn ddiweddar.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mawrth 2026.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Cafwyd cadarnhad bod y cais i Statkraft wedi ei gymeradwyo. Byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mis Mehefin.

GWEFAN LLANLLWNI:
Yr oedd Adroddiad Mawrth 2026 ar y wefan.

AGENDA:
Yr oedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Neuadd Gymunedol cyn y cyfarfod ac ar y wefan.

Nodwyd y byddai'r Clerc yn anfon eto at y Cyngor Sir ar faterion yn ymwneud â Gwastod Bryn, Hewl Felinfach – Fferm Y Bryn, Pont Llwyn-ann, Pen Hewl Bryn-ceirch i gyfeiriad Llandysul, Hewl Llwyn-pur, Hewl Plas-bach.
Ger Mynedfa Bwlchclawdd, roedd gwaith wedi ei gwblhau.

LLOGI'R NEUADD:
Byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gan fod Cyngor Bro Llanllwni yn llogi'r Neuadd.

LLOGI'R TŶ HERS:
Cafwyd gwybod mai £60.00 roedd CFfI Llanllwni yn talu am logi'r Tŷ Hers. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn danfon anfoneb am £60.00 ac yna yn nodi y byddai'r pris yn codi i £80.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026 – 2027.

PONTLLWNI:
Y giât ddim yn cau yn iawn am fod gwaith heb ei gwblhau.

BOCS HYSBESEBION:
Cytunwyd y byddai'r bocs yn cael ei osod bocs yn y dyfodol agos.

LLWYBR CYHOEDDUS CLYNIAU:
Cadarnhawyd bod y llwybr wedi ei newid a'i gwblhau.

DIFFIBRILYDDION:
Safleoedd Capel Nonni a T.L Thomas wedi eu harchwilio.

Penderfynwyd cefnogi 'Clonc' ac Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.
Bydd y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 27 Gorffennaf am 7.30yh.